OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 202- Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Rhydaman a Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho) 202-

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ****** 202-* |
| *Yn dod i rym* | ****** 202-* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Rhydaman a Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho) 202- a daw i rym ar ****202-.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000**(2)**;

**(1)** 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(2)** O.S. 2000/1786 (Cy. 123), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/3082. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 202- No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A483 Trunk Road (Ammanford Road and Pontardulais Road, Tycroes, Carmarthenshire) (Prohibition of Waiting, Loading and Unloading) Order 202-

| | |
|---|---|
| *Made* | ****** 202-* |
| *Coming into force* | ****** 202-* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A483 Swansea to Manchester trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1), 2(2), and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to the Road Traffic Regulation Act 1984**(1)**, after giving public notice of their intention to do so and after consultation with the Chief Officer of the Dyfed-Powys Police, make this Order.

### Title, Commencement and Interpretation

**1.** The title of this Order is the A483 Trunk Road (Ammanford Road and Pontardulais Road, Tycroes Carmarthenshire) (Prohibition of Waiting, Loading and Unloading) Order 202- and it comes into force on ****202-.

**2.** In this Order—

"disabled person's badge" ("*bathodyn person anabl*") has the meaning given in regulation 2(1) of The Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000**(2)**;

**(1)** 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c.25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**(2)** S.I. 2000/1786 (W.123), amended by S.I. 2014/3082. There are other amending instruments but none is relevant.

ystyr "cefnffordd yr A483" ("*the A483 trunk road*") yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

mae i "disg parcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000**(3)**;

mae i "y safle perthnasol" ("*the relevant position*") yr ystyr a roddir gan reoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

**Gwahardd aros ar unrhyw adeg**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 5(1), ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn ar unrhyw adeg.

**Gwahardd llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg**

**4.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 5(2), ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd lwytho neu ddadlwytho ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar unrhyw adeg.

**Esemptiadau**

**5.** (1) Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluog—

(a) person i fynd i mewn i'r cerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono:

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau o'r gefnffordd; neu

**(3)** O.S. 2000/1785 (Cy.122).

"parking disc" ("*disg parcio*") has the meaning given in regulation 8(5) of The Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000**(3)**;

"the relevant position" ("*y safle perthnasol*") has the meaning given by regulation 4 of The Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

"the A483 trunk road" ("*cefnffordd yr A483"*) means the A483 Swansea to Manchester Trunk road.

**Prohibition of waiting at any time**

**3.** Except as provided in article 5(1), no person may cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Order at any time.

**Prohibition of loading and unloading at any time**

**4.** Except as provided in article 5(2), no person may cause or permit any vehicle to load or unload on the side of the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order at any time.

**Exemptions**

**5.** (1) Nothing in article 3 renders it unlawful to cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Order for so long as may be necessary to enable—

(a) a person to board or alight from the vehicle;

(b) goods to be loaded on or unloaded from the vehicle;

(c) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:

(i) building, industrial or demolition operations;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the lengths of the trunk road; or

**(3)** S.I. 2000/1785 (W.122).

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o’r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y’i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(4);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darnau o’r gefnffordd neu’n gyfagos iddo;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu’r heddlu; neu

(g) y cerbyd i stopio pan fo’r person sydd â rheolaeth arno’n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fo’n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) Caiff person beri neu ganiatáu i gerbyd aros ar ochr y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy’n angenrheidiol i alluogi—

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o’r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(4) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to the lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(4);

(d) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;

(e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the lengths of the trunk road;

(f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(g) the vehicle to stop when the person in control of it:

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;

(iii) is prevented from proceeding; or

(iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

(2) A person may cause or permit a vehicle to wait on the side of the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order for so long as may be necessary to enable —

(a) a person to board or alight from a vehicle;

(b) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:

(i) building, industrial or demolition operations;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the length of the trunk road; or

(4) 2003 c.21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c.30).

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darn hynny o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darn hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(d) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darn o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(e) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(f) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(3) Ni fydd dim yn erthygl 5(1) a 5(2) yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn am gyfnod nad yw'n hwy na 3 awr, gydag awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar y gefnffordd.

(iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to the length of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003;

(c) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;

(d) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the length of the trunk road;

(e) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(f) the vehicle to stop when the person in control of it:

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;

(iii) is prevented from proceeding; or

(iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

(3) Nothing in article 5(1) and 5(2) renders it unlawful to cause or permit a vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle, has marked the time at which the period of waiting began) to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 and 2 to this Order for a period not exceeding 3 hours, being a period separated by an interval of at least 1 hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day on the trunk road.

**Dirymu**

**6.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (Sgwâr Tŷ-croes, Rhydaman) (Gwahardd Aros) 1968**(5)** wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig **** 202-

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd aros ar unrhyw adeg**

1. Y darn o ochr ddwyreiniol cefnffordd yr A483 o'r enw Heol Rhydaman sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Hendre hyd at bwynt 142 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod A iddo ar y plan a adneuwyd.

2. Y darn o ochr ddwyreiniol cefnffordd yr A483 o'r enw Heol Rhydaman sy'n ymestyn o bwynt 184 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Hendre hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tycroes ac y rhoddir y cyfeirnod B iddo ar y plan a adneuwyd.

3. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol cefnffordd yr A483 o'r enw Heol Pontarddulais sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tycroes hyd at ganolbwynt ei chyffordd Heol Penygarn ac y rhoddir y cyfeirnod C iddo ar y plan a adneuwyd.

4. Y darn o ochr ddeheuol cefnffordd yr A483 o'r enw Heol Pontarddulais sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Penygarn hyd at bwynt 42 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod D iddo ar y plan a adneuwyd.

5. Y darn o ochr orllewinol cefnffordd yr A483 o'r enw Heol Rhydaman sy'n ymestyn o bwynt 228 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Hendre hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tycroes ac y rhoddir y cyfeirnod E iddo ar y plan a adneuwyd.

**(5)** O.S. 1968/1937.

**Revocation**

**6.** The Trunk Road (Tycroes Square, Ammanford) (Prohibition of Waiting) Order 1968**(5)** is revoked.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated **** 202-

*Richard Morgan*
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Prohibition of waiting at any time**

1. The length of the eastern side of the A483 trunk road known as Ammanford Road that extends from a point 100 metres south of the centre point of its junction with Hendre Road to a point 142 metres south of that said junction and given the reference A on the deposited plan.

2. The length of the eastern side of the A483 trunk road known as Ammanford Road that extends from a point 184 metres south of the centre point of its junction with Hendre Road to the centre-point of its junction with Tycroes Road and given the reference B on the deposited plan.

3. The length of the south-eastern side of the A483 trunk road known as Pontardulais Road that extends from the centre-point of its junction with Tycroes Road to the centre-point of its junction with Penygarn Road and given the reference C on the deposited plan.

4. The length of the southern side of the A483 trunk road known as Pontardulais Road that extends from the centre-point of its junction with Penygarn Road to a point 42 metres south-west of that said junction and given the reference D on the deposited plan.

5. The length of the western side of the A483 trunk road known as Ammanford Road that extends from a point 228 metres south of the centre point of its junction with Hendre Road to the centre-point of its junction with Tycroes Road and given the reference E on the deposited plan.

**(5)** S.I. 1968/1937.

6. Y darn o ochr ogleddol cefnffordd yr A483 o'r enw Heol Pontarddulais sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tycroes hyd at bwynt 68 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod F iddo ar y plan a adneuwyd.

6. The length of the northern side of the A483 trunk road known as Pontardulais Road that extends from the centre-point of its junction with Tycroes Road to a point 68 metres south-west of that junction and given the reference F on the deposited plan.

**ATODLEN 2**
**Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg**

Y darn o ochr orllewinol cefnffordd yr A483 o'r enw Heol Rhydaman sy'n ymestyn o bwynt 91 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Hendre hyd at bwynt 142 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod G iddo ar y plan a adneuwyd.

**SCHEDULE 2**
**Prohibition of waiting, loading and unloading at any time**

The length of the western side of the A483 trunk road known as Ammanford Road that extends from a point 91 metres south of the centre point of its junction with Hendre Road to a point 142 metres south of that said junction and given the reference G on the deposited plan.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (HEOL RHYDAMAN A HEOL PONTARDDULAIS, TŶ-CROES, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar y darnau o gefnffordd yr A483 yn Heol Rhydaman a Heol Pontarddulais yn Sir Gaerfyrddin, fel y'u pennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn, a chyflwyno ardal a reolir croesfan sebra yn gysylltiedig â'r cyfyngiadau aros ar Heol Rhydaman.

Ar hyn o bryd, gwaherddir aros, llwytho a dadlwytho ar rai darnau o'r gefnffordd o dan sylw yn rhinwedd Gorchymyn Cefnffordd (Sgwâr Tŷ-croes, Rhydaman) (Gwahardd Aros) 1968 a gaiff ei ddirymu a'i ailddeddfu gan y Gorchymyn arfaethedig.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 11 Rhagfyr 2019 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â Phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Rhydaman, 3 Stryd y Gwynt, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin SA18 3DN, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1404929.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 1 Ionawr 2020, a hynny drwy ddyfynnu'r cyfeirnod

**THE A483 TRUNK ROAD (AMMANFORD ROAD AND PONTARDULAIS ROAD, TYCROES, CARMARTHENSHIRE) (PROHIBITION OF WAITING, LOADING AND UNLOADING) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order under sections 1(1), 2(1), 2(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to prohibit waiting, loading and unloading on the lengths of the A483 trunk road at Ammanford Road and Pontardulais Road in the County of Carmarthenshire, as specified in the Schedules to this Notice and introducing a zebra crossing controlled area in association with the waiting restrictions on Ammanford Road.

Waiting, loading and unloading is currently prohibited on some lengths of the trunk road concerned by virtue of the Trunk Road (Tycroes Square, Ammanford) (Prohibition of Waiting) Order 1968 which will be revoked and re-enacted by the proposed Order.

During a period of 21 days from 11 December 2019, a copy of the proposed Order, together with a Plan and a Statement of Reasons for making the Order, may be inspected during normal opening hours at Ammanford Library, 3 Wind Street, Ammanford, Carmarthenshire SA18 3DN or may be obtained free of charge from the address below quoting the reference number qA1404929.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1404929, must be sent in writing to the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 1 January 2020. **Please note:** Should

qA1404929. **Sylwer:** Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd aros ar unrhyw adeg**

1. Y darn o ochr ddwyreiniol cefnffordd yr A483 o'r enw Heol Rhydaman sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Hendre hyd at bwynt 142 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod A iddo ar y plan a adneuwyd.

2. Y darn o ochr ddwyreiniol cefnffordd yr A483 o'r enw Heol Rhydaman sy'n ymestyn o bwynt 184 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Hendre hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tycroes ac y rhoddir y cyfeirnod B iddo ar y plan a adneuwyd.

3. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol cefnffordd yr A483 o'r enw Heol Pontarddulais sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tycroes hyd at ganolbwynt ei chyffordd Heol Penygarn ac y rhoddir y cyfeirnod C iddo ar y plan a adneuwyd.

you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Prohibition of waiting at any time**

1. The length of the eastern side of the A483 trunk road known as Ammanford Road that extends from a point 100 metres south of the centre point of its junction with Hendre Road to a point 142 metres south of that said junction and given the reference A on the deposited plan.

2. The length of the eastern side of the A483 trunk road known as Ammanford Road that extends from a point 184 metres south of the centre point of its junction with Hendre Road to the centre-point of its junction with Tycroes Road and given the reference B on the deposited plan.

3. The length of the south-eastern side of the A483 trunk road known as Pontardulais Road that extends from the centre-point of its junction with Tycroes Road to the centre-point of its junction with Penygarn Road and given the reference C on the deposited plan.

4. Y darn o ochr ddeheuol cefnffordd yr A483 o’r enw Heol Pontarddulais sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Penygarn hyd at bwynt 42 o fetrau i’r de-orllewin o’r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod D iddo ar y plan a adneuwyd.

5. Y darn o ochr orllewinol cefnffordd yr A483 o’r enw Heol Rhydaman sy’n ymestyn o bwynt 228 o fetrau i’r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Hendre hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tycroes ac y rhoddir y cyfeirnod E iddo ar y plan a adneuwyd.

6. Y darn o ochr ogleddol cefnffordd yr A483 o’r enw Heol Pontarddulais sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Tycroes hyd at bwynt 68 o fetrau i’r de-orllewin o’r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod F iddo ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**
**Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg**

Y darn o ochr orllewinol cefnffordd yr A483 o’r enw Heol Rhydaman sy’n ymestyn o bwynt 91 o fetrau i’r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Hendre hyd at bwynt 142 o fetrau i’r de o’r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod G iddo ar y plan a adneuwyd.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (HEOL RHYDAMAN A HEOL PONTARDDULAIS, TŶ-CROES, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO) 202-**

**DATGANIAD O’R RHESYMAU**

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwella gwelededd ar y darnau o gefnffordd yr A483 yn Nhŷ-croes, tuag at fynedfa’r ardal fanwerthu a chyffordd Heol Rhydaman â Bryn Hafod ac ohonynt, ac er mwyn cyfyngu ar barcio ar y darnau arfaethedig a nodir yn yr atodlen.

Mae angen y cynnig hefyd er mwyn sicrhau diogelwch cerddwyr drwy gyflwyno ardal a reolir croesfan sebra sy’n gysylltiedig â’r cyfyngiadau aros ar Heol Rhydaman. Cefnogir y cynnig gan Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn dirymu Gorchymyn Cefnffordd (Sgwâr Tŷ-croes, Rhydaman) (Gwahardd Aros) 1968.

4. The length of the southern side of the A483 trunk road known as Pontardulais Road that extends from the centre-point of its junction with Penygarn Road to a point 42 metres south-west of that said junction and given the reference D on the deposited plan.

5. The length of the western side of the A483 trunk road known as Ammanford Road that extends from a point 228 metres south of the centre point of its junction with Hendre Road to the centre-point of its junction with Tycroes Road and given the reference E on the deposited plan.

6. The length of the northern side of the A483 trunk road known as Pontardulais Road that extends from the centre-point of its junction with Tycroes Road to a point 68 metres south-west of that junction and given the reference F on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**Prohibition of waiting, loading and unloading at any time**

The length of the western side of the A483 trunk road known as Ammanford Road that extends from a point 91 metres south of the centre point of its junction with Hendre Road to a point 142 metres south of that said junction and given the reference G on the deposited plan.

**THE A483 TRUNK ROAD (AMMANFORD ROAD AND PONTARDULAIS ROAD, TYCROES, CARMARTHENSHIRE) (PROHIBITION OF WAITING, LOADING AND UNLOADING) ORDER 202-**

**STATEMENT OF REASONS**

The proposed Order is required to improve visibility on the lengths of the A483 trunk road at Tycroes, located to and from the access of the retail area and the Ammanford Road junction with Bryn Hafod and restricting parking over the proposed lengths detailed in the schedule.

The proposal is also required for the safety of pedestrians by introducing a zebra crossing controlled area associated with the waiting restrictions on Ammanford Road and is supported by the South Wales Trunk Road Agency and Carmarthenshire County Council.

The proposed Order will revoke the Trunk Road (Tycroes Square, Ammanford) (Prohibition of Waiting) Order 1968.